


Canllawiau ar gyfer gwneud gwybodaeth yn hawdd ei darllen a'i deall i bobl ag anabledd dysgu

1. Meddwl





*“Peidiwch â’r dyfynnu
i ond yr unig beth sy raid i chi
wneud gyda gwybodaeth hawdd ei
deall yw ticio bocsys. Dydy o ddim yn
gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd.
Os nad yw pobl yn gallu darllen, yna mae
i fyny iddyn nhw ddod o hyd i rywun i’w
egluro iddyn nhw.”*

**Meddyg teulu John,
Rheolwr y Practis**

Fe gollodd John apwyntment arall yn y feddygfa -
roedd yr ysgrifwr ar ei gerdyn yn rhy fach ac roedd yn
camddarllen y wybodaeth. Erbyn yr amser y gwelodd
feddyg teulu roedd ei glefyd siwgwr allan o reolaeth.
Cafodd dderbyniad brys i’r ysbyty ac roedd yn rhaid
iddo aros yno am ddeng niwrnod.



Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	4
Dewch i gyfarfod â John	4
Pam mae gwybodaeth hawdd ei deall yn bwysig?	5
Mae'n dda ar gyfer eich mudiad	5
Mae'n dda ar gyfer unigolion	6
Mae'n dda ar gyfer Cymru	6
Mae'n hawl gyfreithiol	7
Beth mae 'hawdd ei ddeall' yn ei feddwl?	8
Beth yw'r rhwystrau?	11
Mae wedi cael ei ysgrifennu	11
Mae'r testun yn rhy anodd	11
Rydych chi'n defnyddio gormod o jargon	12
Dydy o ddim yn berthnasol	13
Rydych chi wedi gadael gwybodaeth allan!	14
Mae'r testun yn anodd ei ddilyn	14
Ble mae fy iaith i?	15
Mae'r lluniau yn fy nrysu i	15
Rhowch y gorau i'm trin i fel plentyn!	16
Pam mae fy fersiwn i yn wael ei ansawdd?	17
Iaith Hawdd ei Deall ac Iaith Gyffredin	18

1. Meddwl

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys arweiniad manwl ynglŷn â gwneud eich gwybodaeth ysgrifenedig yn haws i fwy o bobl ei deall.

Ategolion:

- **2 fideo byr ynglŷn â gwybodaeth hawdd ei deall**
- **Cynllunio gwneud gwybodaeth hawdd ei deall**
- **Canolbwyntio ar Iaith Hawdd ei Deall**
- **Cyflwyno testun 'Iaith Gyffredin'**
- **Arweiniad ar wneud gwybodaeth hawdd ei deall yn Saesneg**
- **Arweiniad ar wneud gwybodaeth hawdd ei deall yn Gymraeg**
- **Gwiriwch efi!, cyfrwng i helpu gwirio ansawdd gwybodaeth hawdd ei deall**
- **Helpu mudiadau i ddechrau gwneud gwybodaeth hawdd ei deall**
- **Cael rhagor o wybodaeth.**

Mae'r fideos yn eich cyflwyno chi i John. Trwy gydol y llyfr byddwch yn clywed rhagor am "John" a rhai o'r bobl yn ei fywyd.

Dewch i gyfarfod â John

Mae John yn ddyn sengl 53 mlwydd oed, sy'n byw ar ei ben ei hun mewn cartref byw gyda chymorth. Mae'n gweld ei ffrind, Ed, bron bob dydd. Mae gweithiwr cefnogi John yn galw bob dydd.

Byddwn hefyd yn cyfarfod â meddyg teulu John, Rheolwr y Practis, staff o'r ysbyty, pobl o'i Fwrdd Iechyd Lleol, gweithiwr y ddesg groeso yn y Ganolfan Byd Gwaith a staff o fanc John.

Mae profiadau John a'r sylwadau sydd wedi eu priodoli i eraill wedi eu seilio ar ffeithiau. Mae'r stori a'r dyfyniadau, er hynny, yn ffuglennol.

1. Meddwl


Pam mae gwybodaeth hawdd ei deall yn bwysig?

Y gwir amdani yw bod gwybodaeth hawdd ei deall yn:

- dda ar gyfer eich mudiad
- da i unigolion
- da ar gyfer Cymru
- hawl gyfreithiol.

Mae'n dda ar gyfer eich mudiad

- Bydd llai o gamgymeriadau, llai o golli apwyntment dro ar ôl tro a llai o gamddealltwriaeth.
- Os bydd dewis, bydd mwy o bobl yn dewis eich mudiad chi.
- Bydd pobl yn cael gwell argraff o'ch mudiad.
- Bydd eich mudiad yn gwneud ei waith yn fwy esmwyth ac effeithiol.
- Mae'n eich helpu i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol.




Roedd rheolwr y practis wedi cael braw pan ddarganfu'r rheswm y bu i John golli ei apwyntment dro ar ôl tro. Nid oedd yn gallu credu bod rhywbeth a oedd mor hawdd ei gywiro wedi bod mor gostus o ran adnoddau i GIG ac wedi bod yn dipyn o ysgytwad i'r claf.

1. Meddwl

Mae'n dda ar gyfer unigolion

- Mae pobl yn gwybod sut i gael y gwasanaethau, y cyngor a'r wybodaeth. a'r help sydd eu hangen arnyn nhw pan fydd eu hangen arnyn nhw
- Mae'n haws gwneud dewisiadau gwybodus.
- Mae'n lleihau camgymeriadau, camddealltwriaethau a damweiniau.

Rydym yn byw mewn byd o ddewisiadau. Er mwyn gwneud dewisiadau o'r iawn ryw, mae arnom ni angen gwybodaeth. Mae arnom ni angen medru deall y wybodaeth honno. Mae arnom ni angen deall sut mae'r wybodaeth honno yn berthnasol i ni. Dim ond wedyn y gallwn ni wneud dewis gwybodus. Heb wybodaeth hawdd ei deall mae dewis yn mynd yn ddiystyr i bobl ag anableddau dysgu.



“Fe sylweddolais nad oedd John wedi darllen y gair ‘peidiwch’ yn ei lyfryn am reoli clefyd y siwgwr. Roedd wedi edrych ar y lluniau bwyd. Felly roedd wedi bod yn bwyta llwythi o gacennau a siocled achos ei fod yn meddwl bod hynny’n iawn. Roedd arno eisiau gwneud dewisiadau iach ond doedd ganddo mo’r wybodaeth roedd ei hangen arno.”

Gweithiwr cefnogi John

Mae'n dda ar gyfer Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus wrth galon diwygio'r gwasanaeth cyhoeddus. Mae diwygio gofal cymdeithasol yn cael ei ddatblygu o amgylch rhoi gwybodaeth hawdd ei deall, llais cryfach a mwy o reolaeth i bobl, e.e. **Bil y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010**. Mae **Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach: Y Cyfnod Nesaf o Wella Gwasanaethau Cyhoeddus** (2009) yn gosod allan pum gweithred flaenoriaethol, gan gynnwys mwy o wybodaeth hawdd ei deall ar gyfer y cyhoedd.

1. Meddwl

Mae Llywodraeth Cymru yn annog dinasyddion i roi eu barn, cymryd rhan a gwneud dewisiadau o ran gwasanaethau lleol. Mae ar bobl angen gwybodaeth, ac mae arnyn nhw angen i wybodaeth fod yn hawdd ei deall er mwyn ymgymryd â'r rolau hyn.

Mae'n hawl gyfreithiol

Nid dewis yw gwybodaeth hawdd ei deall. Nid yw'n synnwyr busnes da neu'n arfer da yn unig; y mae hefyd yn ofynnol yn gyfreithiol. Y darnau o ddeddfwriaeth mwyaf perthnasol yw'r **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** a'r **Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005**. Yn ogystal, cadarnhaodd y DU **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** ym Mehefin 2009.

Daeth **Deddf Cydraddoldeb i rym yn Hydref 2010**. Mae'r Ddeddf yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth i feddwl ymlaen llaw am yr hyn mae pobl ag anableddau yn debygol o fod ei angen arnynt er mwyn medru defnyddio eu gwasanaethau. Os ydych chi'n darparu gwasanaeth, fedrwch chi ddim aros nes bydd person anabl yn gofyn i chi wneud eich gwasanaeth yn hawdd ei ddefnyddio. Os ydych chi'n gwneud gwybodaeth ysgrifenedig neu'n ei anfon allan, golyga hyn bod yn rhaid i chi feddwl sut i wneud eich gwybodaeth yn hawdd ei deall i bobl â gwahanol fathau o anableddau - gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu. Yn ôl y Ddeddf hefyd mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud cynllun cydraddoldeb sydd yn hawdd i'r cyhoedd ei ddeall a'i ddefnyddio. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/new-equality-act-guidance/equality-act-guidance-downloads

Mae **Deddf Galluedd Meddyliol 2005** yn cefnogi hawl pobl i wneud dewisiadau ynglŷn â'u bywydau. Ni ellir rhoi asesiad prinder gallu i wneud penderfyniad i rywun os nad yw'r person hwnnw wedi cael yr holl gefnogaeth sydd ei angen arno i wneud dewis gwybodus. Mae gwneud gwybodaeth yn hawdd ei deall yn rhan hanfodol o'r broses hon.

Mae cyfeiriadau at wybodaeth hawdd ei deall yn rhan o wead **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**. Mae'r Rhagymadrodd yn cyfeirio at bwysigrwydd cael gafael ar “wybodaeth a chyfathrebu yn hawdd er mwyn galluogi pobl ag anableddau i fwynhau holl hawliau dynol a rhyddid sylfaenol yn llwyr.” Mae Erthygl 9 yn ymrwymo'r DU i wneud pethau'n hygyrch, gan gynnwys gwybodaeth hawdd ei deall. Mae Erthygl 21 yn cysylltu rhyddid mynegiant a barn â gwybodaeth hawdd ei deall. Mae diwygiau hawdd eu deall yn rhan o Erthygl 28 (cymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus) a 29 (cymryd rhan mewn bywyd diwylliannol, adloniant a chwaraeon).

1. Meddwl

Beth mae 'hawdd ei ddeall' yn ei feddwl?

Nid yw gwybodaeth yn hawdd ei deall mewn gwirionedd os nad yw'n hawdd i chi:

- ddod o hyd i'r wybodaeth
- sylweddoli bod y wybodaeth yn berthnasol i chi
- deall a defnyddio'r wybodaeth.

Golyga hyn y gall gwybodaeth sy'n hawdd ei deall i un person fod yn gwbl anodd ei deall i rywun arall. Nid oes 'un maint ar gyfer pawb'. Wrth ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa gyffredinol, y gorau y gallwch ei wneud yw gwneud y wybodaeth mor hawdd ei deall i gymaint o bobl â phosibl. Dyna fydd y llawlyfr hwn yn eich helpu i wneud.

Os ydych chi'n rhoi gwybodaeth i un person bydd arnoch angen meddwl yn ofalus sut mae'r person hwn yn cyfathrebu a beth fydd yn helpu'r person i ddeall.

"Mae'n anodd iawn cyrraedd y tu hwnt i'r angen am wybodaeth unigoleddig. Gall rhai pobl, fel John, ddeall gwybodaeth Hawdd ei Deall gydag ychydig iawn o gefnogaeth. Ond bydd llawer o bobl eraill wastad angen rhywun i helpu esbonio gwybodaeth. Ac ni fydd ysgrifennu yn helpu'r wyth allan o ddeg o bobl ag anableddau dysgu sydd ddim yn darllen neu sy'n ei chael hi'n anodd i ddarllen - er, efallai y bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i'w gofalwr egluro'r wybodaeth iddynt."

Gweithiwr cefnogi John

1. Meddwl


Os oes gan y person anghenion cyfathrebu arbennig, efallai y bydd arnoch angen Therapydd Iaith a Lleferydd i'ch helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y person hwnnw. Fodd bynnag, dyma rai awgrymiadau cyffredinol:

- gofynnwch i bobl eraill sut mae'r person yn cyfathrebu orau
- meddyliwch am luniau a symbolau ac a oes modd i chi gael set gyffredin o ffotograffau a lluniau y gallech eu defnyddio i ategu yr hyn rydych chi'n ei ddweud wrth y person.
- meddyliwch am roi gwybodaeth mewn dau neu dri gwahanol ffordd, yn hytrach na dibynnu ar un ffordd
- sicrhewch bod gan y person wybodaeth i fynd gydag ef er mwyn medru gweld (neu ofyn i rywun edrych ar y wybodaeth i weld) a ydynt wedi deall y wybodaeth
- os oes gan rywun ofalwr neu weithiwr cefnogi, sicrhewch bod y person hwnnw wedi deall y wybodaeth a bod ganddynt y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i egluro'r wybodaeth i'r person maent yn ei gefnogi.

Mae'r llawlyfr yn canolbwyntio ar wybodaeth ysgrifenedig gan mai dyna yw'r ffordd mwyaf cyffredin i fudiadau roi gwybodaeth i'r cyhoedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, anaml y mae gwybodaeth ysgrifenedig ar ei ben ei hun yn ffordd hawsaf i bobl ddeall y wybodaeth honno. Mae gwybodaeth o'r fath yn dibynnu ar y ffaith bod gan bobl lefelau uchel o fedrau dod o hyd i'r wybodaeth ysgrifenedig iawn, gwybod sut i ddarllen y wybodaeth ac wedyn gallu ei gofio a deall a defnyddio'r wybodaeth ysgrifenedig. Mae hyd yn oed pobl sy'n dda am ddarllen yn aml yn ei chael hi'n haws i gofio, deall a defnyddio gwybodaeth ar ôl iddyn nhw wrando a siarad yn ei gylch.


Mae llawer, os nad y mwyafrif, o bobl yng Nghymru yn cael y rhan fwyaf o'u gwybodaeth wrth siarad a gwrando - ac nid wrth ddarllen. Mae siarad hefyd yn galluogi pobl i gael gwybodaeth sy'n berthnasol iddynt hwy, yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth gyffredinol.

1. Meddwl



Mae John yn
mynychu grŵp Pobl yn Gyntaf.
Mae'n dweud "Rydych chi'n cael
mwy o wybodaeth gan siaradwr neu
trwy ofyn mewn grŵp na chael rhywun yn
rhoi taflen i chi. Ond rydw i'n hoffi cael
rhywbeth wedi ei ysgrifennu i fynd
gyda fi hefyd."

Gall hyd yn oed siarad a gwrandao ar eu pennau eu hunain fod yn anodd i'w deall.



"Yr ateb yw
siarad, dangos, ymarfer
a 'dadsensiteiddio' os yw'n
sefyllfa newydd, fel mynd at
y deintydd. Doedd siarad ac
edrych ar lyfryn ddim yn ddigon."

Gweithiwr cefnogi John

1. Meddwl

Beth yw'r rhwystrau?

Mae wedi cael ei ysgrifennu

Mae dibynnu ar ysgrifennu yn gwneud eich gwybodaeth yn anos i'w deall i lawer o bobl.

Meddylwch am wahanol ffyrdd i roi'r wybodaeth, fel siarad wyneb yn wyneb, mynychu grwpiau a mannau ble mae pobl yn cyfarfod neu trwy roi DVD i bobl. Efallai y byddwch am siarad â phobl ac yna roi rhywbeth ysgrifenedig iddynt i'w helpu i gofio'r hyn ddywedoch chi.

Weithiau gwybodaeth ysgrifenedig yw'r unig ddewis sydd gennych chi. Fodd bynnag, gallwch wneud eich gwybodaeth ysgrifenedig yn haws i'w deall trwy ddefnyddio'r canllawiau yn y llawlyfr hwn.

Mae'r testun yn rhy anodd

Awgrymodd **Arolwg Cenedlaethol ar Fedrau Sylfaenol Oedolion yng Nghymru** (2004) y byddai ymhell dros hanner (65%) o'r cyhoedd yn cael trafferth i ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg o safon TGAU. Mae'r llawlyfr hwn yn defnyddio safon ysgrifennu lefel-A. Mae llythyr swyddogol cyffredin yn defnyddio safon ysgrifennu israddedig neu ôl-raddedig.

Edrychodd John

ar ei gyfrif banc. Roedd £120 yn fyr.


Dywedodd y derbynnydd arian bod y banc wedi anfon llythrau ynglŷn â'r taliadau banc cyn iddyn nhw dynnu'r arian.

Cyfaddefodd y gallen nhw fod yn anodd i'w deall. Fel arfer mae John yn gofyn i'w weithiwr cefnogi i'w helpu gyda llythrau swyddogol

ond *"Alla i ddim dangos llythrau banc i'm gweithiwr cefnogi. Rydw i'n hoffi cadw fy arian yn breifat, ydych chi'n gweld?"*

1. Meddwl


Mae dogfen ymgynghori gyffredin neu lawlyfr polisi yn defnyddio arddull ysgrifennu sy'n cyfateb i arddull ôl-raddedig.



Anfonodd Bwrdd Iechyd
Lleol John ddogfen ymgynghori
ato. Ni allai John ddeall gair ohono. Felly
ni allai leisio ei farn ynglŷn â'r newidiadau
arfaethedig. Helpodd ei weithiwr cefnogi
ef i gwyno.

Rydych chi'n defnyddio gormod o jargon

Geiriau neu ymadroddion gydag ystyr arbennig neu sy'n rhan o fath arbennig o iaith yw jargon. Mae gan bob ffordd o fyw ei iaith arbennig ei hun. Unwaith rydych chi'n deall yr iaith, rydych chi 'i mewn'; os nad ydych chi'n deall yr iaith, rydych chi 'allan'. Mae'n anodd iawn i rywun o'r tu mewn sylweddoli pryd maent yn defnyddio jargon gan ei fod yn iaith maent yn ei ddefnyddio bob dydd.



Roedd John yn gweld y
llythyr a'r llyfryn am Lwfans Cyflogaeth a
Chymorth yn anodd eu dilyn. Roedd ei weithiwr
cefnogi yn cael trafferth gyda'r jargon hefyd. Aethon
nhw i swyddfa'r budd-daliadau am help. Roedden
nhw'n deall y wybodaeth ar ôl i'r ddynes ei egluro, ond
cawson nhw drafferth i'w gofio wedyn. Roeddent
yn dymuno y buasai hi wedi cynnig ei
ysgrifennu i lawr.


1. Meddwl

Fel arfer, gellir esbonio jargon mewn ychydig eiriau cyffredin y mae pawb yn eu deall. Er enghraifft, gallai 'cyfranogi' feddwl 'ymuno' neu 'gymryd rhan' neu 'ddweud eich barn', gan ddibynnu ar y cyd-destun rydych chi'n ysgrifennu amdano. Mae gan wefan 'The Plain English Campaign' restrau o jargon a dewisiadau eraill o eiriau bob dydd.

Ambell waith, mae un gair o jargon yn llaw-fer ar gyfer rhywbeth sy'n gymhleth iawn i'w egluro. Er enghraifft, mae 'eiriolaeth' yn jargon ond mae'n anodd iawn dod o hyd i un neu ddau air cyffredin arall. Mae'n cymryd brawddeg neu ddwy i esbonio 'eiriolaeth'. Gydag enghreifftiau fel hyn, fe all fod yn well dysgu ystyr y gair i bobl. Mewn gwybodaeth ysgrifenedig, gallwch wneud hyn trwy gael rhestr eiriau ar y dechrau sy'n egluro ystyr unrhyw jargon neu eiriau anodd rydych chi am eu defnyddio.

Dydy o ddim yn berthnasol

Peidiwch â thaflu llwyth o wybodaeth at bobl. Cadwch wybodaeth mor bersonol â phosibl gan roi gwybodaeth sy'n berthnasol iddynt yn unig.




Weithiau bydd angen i chi ddangos i bobl pam y mae gwybodaeth yn berthnasol iddynt.

1. Meddwl

Rydych chi wedi gadael gwybodaeth allan!

Mae angen ar i fersiynau Hawdd eu Deall a fersiynau Iaith Gyffredin gynnwys yr holl wybodaeth y mae ar bobl ei hangen. Dechreuwch trwy ysgrifennu'r pwyntiau allweddol mae ar rywun angen ei wybod. Yna fe allwch chi ddechrau ysgrifennu'r llythyr ei hun neu'r daflen neu'r fersiwn Hawdd ei Deall o'r ddogfen.



Anfonodd Bwrdd Iechyd
Lleol John ddogfen ymgynghori
arall. Dywedodd John *"Fe gwynais i am yr
un ddiwethaf, felly'r tro hwn fe anfonon nhw un
Hawdd ei Deall i mi. Roedd yn iawn, ond roedd
wedi gadael darnau roedd eu hangen arna i
ateb y cwestiynau, felly roeddwn i'n dal
yn methu lleisio fy marn."*

Mae'r testun yn anodd i'w ddilyn

Gall fod yn anodd dilyn y testun:


- os yw'n rhy fach i'w ddarllen yn gyfforddus
- os yw ffont serif (fel Times New Roman) yn cael ei ddefnyddio neu ffont ffansi (fel Accent neu Old English)
- os nad oes delweddau
- os yw'r testun wedi ei roi dros y delweddau
- os nad yw'r penawdau yn dda iawn neu does dim penawdau
- os yw dyluniad y dudalen yn defnyddio llawer o flychau neu golofnau ac yn ei gwneud hi'n anodd gwybod pa ran o'r dudalen i'w darllen gyntaf
- os yw'r dudalen yn edrych yn 'brysur' am ei bod yn defnyddio gwahanol liwiau, siapiau, borderi a mathau o ddelweddau.

1. Meddwl

Ble mae fy iaith i?

Mae ar wybodaeth angen bod yn yr iaith sydd orau gan y bobl. Os yw'n anodd ei ddarllen i ddechrau, mae'n hyd yn oed mwy anodd yn eich ail iaith.

Fe ddylai fod yn hawdd dweud a ydych yn edrych ar Gymraeg neu Saesneg a dylai fod yn hawdd dod o hyd i'r iaith sydd orau gennych.



Roedd ar John
ac Ed eisiau mynd i nofio. Fe
aethon nhw â thaflen o'r pwll nofio lleol i
weld pa adegau yr oedd ar agor. Roedd John ac
Ed wedi drysu'n lân mewn dim: *"Doeddwn i ddim
yn gwybod p'run oedd p'run, 'dach chi'n gweld.
Roeddwn i'n chwilio am y Saesneg ac roedd
e'n chwilio am y Gymraeg."*

Mae Mencap Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru wedi gwneud canllawiau o'r enw **Gwneud Cymraeg yn Hawdd i'w Darllen a'i Deall**. Mae gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ganllawiau ar ddylunio dwyieithog hefyd.

Mae'r lluniau yn fy nrysu i

Defnyddir delweddau i wneud i bethau edrych yn gyfeillgar ac yn berthnasol. Defnyddir delweddau hefyd i helpu egluro ystyr y testun.

Gall delweddau fod yn bwerus. Ond gall delweddau ddrysu rhywun hefyd. Yn aml mae dau berson yn edrych ar yr un ddelwedd ac yn gweld gwahanol bethau. Cofiwch ofyn i rywun arall ddweud wrthyh chi beth maen nhw'n ei feddwl mae'r ddelwedd yn ei olygu cyn i chi ei gynnwys yn eich gwybodaeth ysgrifenedig.


1. Meddwl

Rhowch y gorau i'm trin i fel plentyn!

Mae oedolion sy'n cael trafferth i ddarllen ac oedolion ag anableddau dysgu yn dal yn oedolion. Gall meddwl yn nhermau oedran darllen fod yn help. Ond mae'n bwysig cofio eich bod yn ysgrifennu ar gyfer oedolion.


Mae arnoch angen meddwl pa ffont i'w ddefnyddio. Mae Comic Sans yn ffont sy'n aml yn cael ei ddefnyddio ar gyfer plant, felly mae'n well peidio â'i ddefnyddio ar gyfer oedolion.

Mae arnoch angen meddwl am ddelweddau. Ydych chi'n defnyddio math o ddelwedd sydd fel arfer yn ymddangos mewn ysgrifennu ar gyfer plant neu i ddarlunio llyfrau plant?



"Y peth oedd, pan oeddwn i yn yr ysbyty, roedd arna i ofn. Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd, 'dach chi'n gweld. Rhoddodd y nyrs lyfr plant i mi i egluro beth oedd yn digwydd. Roedd fel petaen nhw'n meddwl mai pum mlwydd oed oeddwn i!"

John



"Doedd gennyn ni ddim byd addas ar gyfer cleifion ag anableddau dysgu oedd yn oedolion. Rydw i'n gwybod doedd o ddim yn ddelfrydol, ond y peth gorau oedd gennym oedd llyfr o ward y plant."

Nyrs John

Mae arnoch chi angen meddwl am eiriau hefyd. Nid ysgrifennu ar gyfer pobl fel petaen nhw'n blant gyda dealltwriaeth plentyn o'r byd y mae defnyddio geiriau hawdd yn ei feddwl. Darllenwch eich gwybodaeth yn uchel gydag oedolyn arall yn gwrando i weld a yw'n briodol.

1. Meddwl

Pam mae fy fersiwn i yn wael ei ansawdd?

Efallai y byddwch chi'n gweld adroddiad proffesiynol yr olwg gyda chlawr o safon wedi ei rwymo'n broffesiynol wrth ymyl fersiwn Hawdd ei Deall sydd wedi cael ei lun-gopïo ar bapur rhad A4 ac wedi ei ddal gyda'i gilydd â styffylau. Y neges mae hyn yn ei rhoi yw mai ôl-ystyriaeth yw testun Hawdd ei Ddeall, nad yw pobl ag anabledd dysgu yn bwysig ac y bydd unrhyw un pwysig yn medru darllen yr adroddiad proffesiynol yr olwg.

Mae angen ar i destun Hawdd ei Deall gael ei wau i mewn i strategaeth cyfathrebu mudiad. Ar gyfer mudiadau bach, gall hyn olygu cofio meddwl am anghenion pawb wrth gynllunio dosbarthu gwybodaeth. Ar gyfer mudiadau mawr, gall hyn olygu cael polisi corfforaethol sy'n rhoi statws gyfartal i bob fersiwn o ddogfen a phroses sy'n golygu bod testun hawdd ei ddeall yn cael ei dylunio a'i datblygu yr un pryd ag unrhyw fersiwn arall.

1. Meddwl

Iaith Hawdd ei Deall a Iaith Gyffredin

Mae'r llawlyfr yn defnyddio'r termau **Hawdd ei Ddeall** a **Iaith Gyffredin** i ddisgrifio dwy wahanol arddull ysgrifennu.

Mae **Iaith Hawdd ei Deall** yn defnyddio geiriau hawdd, brawddegau byr a lluniau. Mae Iaith Hawdd ei Deall wedi ei llunio i helpu pobl sy'n cael trafferth darllen Cymraeg/Saesneg. Mae wedi ei llunio hefyd i fod yn hawdd ei deall os yw rhywun yn ei darllen allan yn uchel i chi. Nid yw Hawdd ei Ddeall yn derm sydd â hawlfraint. Golyga hyn y gall unrhyw beth gael ei alw'n Hawdd ei Ddeall. Mae llawer o fudiadau wedi ysgrifennu eu rheolau eu hunain ar gyfer iaith Hawdd ei Deall. Gwelir rhestr o'r rhain yn Cael ragor o wybodaeth.

Fe edrychom ni ar ganllawiau sy'n bodoli eisoes, drafftio ein canllawiau ein hunain ac yna profi ac ailbrofi'r canllawiau i sicrhau:

1. Eu bod yn hawdd eu deall
2. Eu bod yn ddibynadwy. Golyga hyn y gall gwahanol bobl ddefnyddio'r canllawiau a chael yr un atebion.
3. Eu bod yn ddilys. Roedd hyn yn meddwl bod y dogfennau'n cael eu dangos i bobl ac roedd y rhai roedd pobl yn meddwl oedd hawsaf i'w deall yn rhai oedd wedi dilyn agosaf at y canllawiau.

Mae **Iaith Gyffredin** yn destun y bydd y rhan fwyaf o bobl Cymru yn ei deall. Mae Iaith Gyffredin yn defnyddio geiriau y mae pobl yn eu defnyddio bob dydd. Mae'n cadw brawddegau mor syml â phosibl. Mae'r canllawiau ar gyfer ysgrifennu Iaith Gyffredin wedi eu sylfaenu ar ymchwil a wnaed gan yr **Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a NIACE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion)** a'u cyngor ar wneud gwybodaeth yn addas ar gyfer y cyhoedd. Gwnaed profion ar y canllawiau trwy ddangos gwahanol fersiynau o'r un wybodaeth i ofalwyr a gofyn iddynt ddewis pa fersiwn oedd yr hawsaf ei deall. Mae Iaith Gyffredin yn cynnwys rheolau ynglŷn â diwyg a dylunio yn ogystal â geiriau.

Os ydych chi'n darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd neu rieni/gofalwyr, rydyn ni'n argymhell eich bod yn defnyddio canllawiau ar gyfer ysgrifennu Iaith gyffredin.

Pam na chawn ni ddefnyddio 'Plain English' yn unig? Mae rheolau 'Plain English' yn ddefnyddiol iawn ac yn cynnig syniadau da ar gyfer cyfnewid geiriau anodd am eiriau hawdd. Ond gall gwybodaeth gael y 'Crystal Mark for Plain English' a pharhau i fod yn anodd i bobl yng Nghymru ei deall.

© Anabledd Dysgu Cymru / Mencap Cymru / Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan/ Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan 2012

Am ragor o gopiau o'r canllawiau hyn cysylltwch ag Anabledd Dysgu Cymru

Ffôn 029 2068 1160

E-bost enquiries@learningdisabilitywales.org.uk

Ffotograff y clawr blaen: Mencap

